# DAD-DDOFI EIN DYFROEDD MEWN OES O WYNT

## BRIFF POLISI, FERSIWN 2, GORFFENNAF 2026
### YN SEILIEDIG AR GANFYDDIADAU PAPUR YMCHWIL CYNHWYSFAWR A GOMISIYNWYD YN 2025


**Fel cenedl sydd wedi colli llawer o'i bywyd morol, ni ddylai Prydain golli'r cyfle prin heddiw i wrthdroi'r dirywiad hwn a chefnogi trawsnewid i foroedd gwylltach. Mae graddfa ddigynsail y cynllun i gyflwyno gwynt alltraeth yn drobwynt pendant: er y gallai ehangu'r seilwaith hwn fod yn anochel, nid felly ein dylanwad dros ei etifeddiaeth ecolegol a chymdeithasol.**


Mae effeithiau negyddol datblygiadau sydd wedi'u cynllunio'n wael yn ormod i'w hanwybyddu. Wrth weithredu nawr i integreiddio dad-ddofi i bolisi gwynt alltraeth, gallwn sicrhau bod darpariaeth ynni glân yn gweithredu fel catalydd allweddol ar gyfer adfywio ein moroedd a'n cymunedau arfordirol, gan sicrhau dyfodol gwydn i'n hecosystemau morol a'r bobl sy'n ddibynnol arnynt.

## GWYNT ALLTRAETH YN CEFNOGI BYD NATUR A PHOBL

Er mwyn i wynt alltraeth sicrhau manteision go iawn i bobl a'r blaned, rydym yn cynnig bod y polisïau sy'n cefnogi'r defnydd ohono yn cael eu datblygu yn unol ag egwyddorion dad-ddofi:

- **CEFNOGI POBL A BYD NATUR GYDA'I GILYDD**
- **GADAEL I FYD NATUR ARWAIN**
- **CREU ECONOMÏAU LLEOL GWYDN**
- **GWEITHIO AR RADDFA BYD NATUR**
- **SICRHAU BUDDION AR GYFER YR HIRDYMOR**





Ar ei orau, rhaid i wynt alltraeth helpu Prydain i lunio model newydd o gydfodolaeth, lle mae darparu ynni glân yn gyrru adferiad morol yn weithredol. Gan fod gwneud yn iawn am ddifrod amgylcheddol yn gymhleth a rhaid iddo barhau i fod y dewis olaf bob amser, mae'n allweddol i leihau ac atal effeithiau yn y lle cyntaf. Dim ond os ydynt yn cyfrannu at ddad-ddofi ein moroedd y mae ffermydd gwynt yn wirioneddol gadarn. Rhaid i ni fanteisio ar y buddsoddiadau hyn i alluogi adferiad ar raddfa fawr, cefnogi bywoliaethau lleol a grymuso cymunedau arfordirol i lywio morweddau'r dyfodol.



© Alexander Mustard/2020VISION

# ARGYMHELLION POLISI

## 1 LLEOLI GWYNT ALLTRAETH YN STRATEGOL A MABWYSIADU DYLUNIAD

Mae'n hanfodol bod seilwaith gwynt alltraeth wedi'i leoli ar welyau môr sy'n unffurf neu wedi dirywio, gan osgoi'r nodweddion ecolegol mwyaf prin, arbennig neu bwysig. Er mwyn lleihau eu hôl troed, dylid dylunio ffermydd gwynt gyda nodweddion natur-gynhwysol o'r cychwyn cyntaf. A rhaid eu rheoli'n ymaddasol wrth fonitro'n gadarn a hirdymor - er mwyn helpu i lywio seilwaith morol y dyfodol.

## 2 GALLUOGI ADFERIAD AR RADDFA FAWR DRWY DDIWYGIO TRWYDDEDU AC ARIANNU FFRAMWEITHIAU

Er mwyn i raddfa'r buddsoddiad sy'n grymuso'r chwyldro diwydiannol hwn gefnogi'r cynefinoedd morol y mae'n ddibynnol arnynt hefyd, rhaid i ni ddatblygu fframweithiau gorfodol i ddatgloi cyllid preifat ar gyfer adfer byd natur ar frys. Ochr yn ochr â'r mecanweithiau ariannol hyn, mae adolygu'r system drwyddedu ar gyfer adfer morol yn hanfodol er mwyn cefnogi'r mentrau hyn ac annog prosiectau ar raddfa forweddol sydd wedi'u creu mewn partneriaeth ddilys rhwng datblygwyr a chymunedau lleol.

## 3 HYRWYDDO GWARCHODFEYDD MOROL DE-FACTO A'U RHEOLI'N BWRPASOL

Er mwyn diogelu bywyd morol a charbon glas, mae angen i ni fanteisio ar y gwarchodfeydd morol damweiniol a grëwyd gan ffermydd gwynt alltraeth, sy'n atal gwneud niwed i dreillio gwaelodol yn naturiol. Dylai llywodraethau gydnabod, rheoli a monitro'r ardaloedd hyn er mwyn gwneud y mwyaf o'r manteision y maent yn eu cynnig i fyd natur ac i integreiddio cynlluniau cyd-leoli (h.y. lleoli sawl gweithgaredd cydnaws yn yr un lle) er mwyn gwneud yn fawr o gyfleoedd gofodol.

## 4 GWELLA YMGYSYLLTIAD CYMUNEDOL A CHYFLEOEDD ECONOMAIDD LLEOL

Ar hyn o bryd, mae economïau lleol yn wynebu colledion ariannol sylweddol yn ystod adeiladu a gweithredu. Trwy fuddsoddi mewn hyfforddiant rhanbarthol, seilwaith a chadwyni cyflenwi domestig, gall llywodraethau angori'r galw am lafur yn lleol - gan gynhyrchu 'swyddi glas' sefydlog a sicrhau pontio teg tuag at gyflogaeth gynaliadwy, hirdymor. Rhaid i ni hefyd ddatblygu modelau ar gyfer cronfeydd budd cymunedol wedi'u gwreiddio mewn ymddiriedaeth a chydweithrediad lleol, gan gymell datblygwyr i gynnwys y rhain mewn ceisiadau prydles.



© Lois GoBe / Adobe Stock

## 5 CEFNOGI LLYTHRENNEDD MOROL A CHYSYLLTIAD DIWYLLIANNOL

Wrth ehangu gwynt alltraeth caiff ein moroedd sylw amlwg iawn, sy’n cynnig ffenestr unigryw i feithrin dealltwriaeth gyhoeddus o ecosystemau morol a datrysiadau hinsawdd. Rhydd y gwelededd hwn gyfle gwych i gryfhau’r gwaith parhaus gan Lywodraethau Prydain ar eu Strategaethau Llythrennedd Morol gyda gwyddoniaeth dinasyddion, mentrau addysgol a phrosiectau cyhoeddus creadigol am wynt alltraeth.

## 7 SEFYDLU CYMUNED YMARFER I GANFOD DATRYSIADAU A RENNIR

Er mwyn pontio’r gagendor yn y sylfaen wybodaeth wyddonol ynghylch effeithiau gwynt alltraeth, mae’n hanfodol ein bod yn cynnull grwpiau rhanddeiliaid traws-sector clir ac agored. Bydd dod â llywodraethau, datblygwyr, cyrff anllywodraethol, gwyddonwyr, pysgotwyr a chymunedau ynghyd yn hwyluso’r ddeialog ystyrlon sydd ei hangen i archwilio datrysiadau cydweithredu, cyd-leoli a chydfodolaeth gwirioneddol.

## 6 DATBLYGU STRATEGAETH DATGOMISIYNU SENSITIF

Rhaid i ni gryfhau’r monitro ecolegol o gwmpas seilwaith gwynt alltraeth er mwyn casglu tystiolaeth ar p’un a all y strwythurau hyn fod yn riffiau artiffisial llewyrchus dros amser. Bydd y mewnwelediadau hyn yn galluogi strategaeth datgomisiynu a fyddai’n sensitif i’r ecosystemau newydd sy’n byw yn y strwythurau hyn, gan ddarparu sicrwydd hirdymor i ddatblygwyr a llunwyr penderfyniadau.

## Y CAMAU NESAF

Gobeithiwn y bydd y briff hwn yn ddefnyddiol i chi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â:

**Jacques Villemot, Arweinydd Polisi ac Eirio-laeth Dad-ddofi Morol**
**jacques.villemot@rewildingbritain.org.uk**

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.



© scotlandbigpicture.com